**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 2 Chwefror 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D H Hopkins | P N May |
| S Bennett | H J Gwilliam | J D McGettrick |
| P N Bentu | L James | F D O'Brien |
| P M Black | O G James | A J O'Connor |
| A Davis | Y V Jardine | D Phillips |
| A M Day | A J Jeffery | C L Philpott |
| P Downing | J W Jones | J E Pritchard |
| C R Doyle | D H Jenkins | S Pritchard |
| M Durke | L R Jones | A Pugh |
| C M J Evans | M H Jones | S J Rice |
| C R Evans | M Jones | K M Roberts |
| V M Evans | S M Jones | B J Rowlands |
| R Fogarty | S Joy | R V Smith |
| R Francis-Davies | E J King | A H Stevens |
| N Furlong | S E Keeton | M Bailey |
| L S Gibbard | E T Kirchner | R C Stewart |
| K M Griffiths | A S Lewis | L G Thomas |
| J A Hale | M B Lewis | W G Thomas |
| T J Hennegan | R D Lewis | M S Tribe |
| C A Holley | W G Lewis | G D Walker |
| P R Hood-Williams | P Lloyd | L V Walton |
| V A Holland | M W Locke | T M White |
| B Hopkins | N L Matthews | R A Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Caroline Davies | Swyddog Cefnogi'r Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): E W Fitzgerald, F M Gordon, H Lawson, P M Matthews a/ac H M Morris

## 108. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen
"Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Cynghorwyr

1) Datganodd y Cynghorydd S M Jones Gysylltiad Personol a Rhagfarnol â Chofnod 114 "Deiseb - Meysydd Chwarae Waunarlwydd" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

2) Datganodd y Cynghorwyr C A Holley, D H Jenkins, E J King, A Pugh ac M T Tribe Gysylltiad Personol â Chofnod 115 "Datganiad Polisi Cyflog 2023/24"

3) Datganodd y Cynghorydd P N May Gysylltiad Personol a Rhagfarnol â Chofnod 119 "Hysbysiad o Gynnig – Bil Gwasanaeth Gofynnol" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

Swyddogion

4) Datganodd G Borsden, A Chard, C Davies, H G Evans, T Meredith, M Nicholls, a B Smith Gysylltiad Personol a Rhagfarnol â Chofnod 115 "Datganiad Polisi Cyflog 2023/24" a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

   **Sylwer:** Ni adawodd A Chard a H G Evans gan fod angen iddynt aros i gyflwyno'r adroddiad, cynnal y bleidlais a chofnodi'r penderfyniad.

## 109. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022.
2) Cyfarfod Seremonïol y cyngor a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022.
3) Cyfarfod Arbennig y cyngor a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023.

## 110. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 111. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

#### i) Tad y Cynghorydd Fiona Gordon

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar tad y Cynghorydd Fiona Gordon.

#### ii) Clare Drakeford, gwraig Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Clare Drakeford, gwraig Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford.

Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

### b) Darllediad Byw

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol bob aelod o'r cyhoedd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw. Nododd fod yn rhaid bod yn ofalus i osgoi unrhyw sylwadau sarhaus neu ddifrïol yn erbyn Swyddogion, Cynghorwyr neu aelodau eraill o'r cyhoedd

## 112. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Cynghorydd Hyrwyddo Beicio

Mae'r Cynghorydd Joe A Hale wedi cael ei benodi'n Gynghorydd Hyrwyddo Beicio. Gellir gweld rhestr o Gynghorwyr Hyrwyddo yn www.abertawe.gov.uk/CynghorwyrHyrwyddo

### b) Llwyddiant Cais Codi'r Gwastad

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo cais codi'r gwastad gan Gyngor Abertawe ar gyfer y prosiect, sy'n bwriadu adfywio Cwm Tawe Isaf.

Mae'r prosiect mawr newydd a fydd yn diogelu treftadaeth ddiwydiannol Abertawe yn rhoi bywyd newydd i goridor afon Tawe ac yn creu swyddi a buddsoddiad wedi cael hwb ariannol o £20 miliwn.

## 113. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnodd David Davies Gwestiwn Cyhoeddus mewn perthynas â Chofnod 118 "Hysbysiad o Gynnig - Bil Gwasanaeth Gofynnol".

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 114. Deiseb - Caeau Chwarae Waunarlwydd.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn amlinellu manylion cefndir Deiseb Meysydd Chwarae Waunarlwydd a oedd yn cynnwys dros 500 o lofnodion.

Anerchodd Suzanne Jeffreys (Prif Ddeisebydd) y cyngor ac amlinellodd y sail a'r cefndir ar gyfer ei chyflwyno.

Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth.

Bu'r cyngor yn trafod y Ddeiseb.

**Penderfynwyd** nodi'r Ddeiseb, ac ni chymerir unrhyw gamau.

## 115. Datganiad Polisi Tâl 2023/24.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Polisi Cyflog Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2023/24.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog 2023-2024 fel a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

## 116. Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus fel yr amlinellir yn yr adroddiad a'i hychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorwyr L V Walton ac R C Stewart i ystyriaeth gael ei rhoi, yn ystod adolygiad nesaf y Strategaeth, i ychwanegu paragraff yn amlinellu pwysigrwydd y Pwyllgorau Datblygu Corfforaethol.

## 117. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd chwe (6) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 2**
Amlinellodd y Cynghorydd S Bennett bryderon yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Parc Arfordirol. Mae'n debygol bod natur anghyflawn y Parc Arfordirol yn achosi llawer o'r ymddygiadau gwrthgymdeithasol hyn. A all yr Aelod Cabinet ddarparu llinell amser clir ar gyfer cwblhau'r Parc Arfordirol?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd dau (2) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer' Rhan B.

**118. Hysbysiad o Gynnig - Bil Isafswm Gwasanaeth.**

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd R C Stewart a'i eilio gan y Cynghorydd M Jones.

*"Mae'r cyngor hwn wedi'i frawychu gan ddeddfwriaeth ddrafft Llywodraeth y DU sy'n cynnig cyfyngu ar allu gweithwyr iechyd i arfer eu hawl i streicio.*

*Bydd y ddeddfwriaeth wael a diangen hon yn atal llawer o alwedigaethau, gan gynnwys meddygon, nyrsys, a gweithwyr iechyd eraill rhag streicio, neu'n eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn wynebu cael eu diswyddo.*

*Mae safonau gwasanaeth gofynnol eisoes yn cael eu cynnal o fewn y gwasanaeth iechyd yn ystod gweithredu diwydiannol, felly mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwbl ddiangen, ac yn edrych fel ymosodiad ideolegol ar hawliau gweithwyr, ar adeg pan taw'r prif fygythiad i ddiogelwch cleifion yw'r anallu i recriwtio staff oherwydd tâl annigonol ac amodau gwaith gwael.*

*Mae'r cyngor yn nodi bod y ddeddfwriaeth hon yn dod o'r un Llywodraeth Dorïaidd a oedd, yn ystod pandemig COVID, yn ein hannog ni i gyd i glapio ar gyfer y meddygon a'r nyrsys hyn a oedd yn peryglu eu bywydau ddydd ar ôl dydd, tra roedd gweinidogion y Llywodraeth Dorïaidd, a'r prif weinidog ei hun ar y pryd, yn cynnal partïon ac yn torri'r rheolau roedden nhw'n disgwyl i'r wlad gyfan eu dilyn.*

*Mae'r cyngor hwn yn condemnio camau Llywodraeth y DU wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ac yn galw ar y prif weinidog a'i weinidogion i dynnu'r cynigion dybryd hyn yn ôl. Rydym hefyd yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y prif weinidog yn y telerau cryfaf posib i amlinellu ein pryderon."*

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidleisio", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y pleidleisio fel a ganlyn:

| **O blaid (59 o gynghorwyr)** |
|---|

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C Anderson | V A Holland | M W Locke |
| S Bennett | C A Holley | N L Matthews |
| P N Bentu | B Hopkins | J D McGettrick |
| P M Black | D H Hopkins | D Phillips |
| J P Curtice | O G James | C L Philpott |
| A Davis | Y V Jardine | J E Pritchard |
| P Downing | A J Jeffery | S Pritchard |
| C R Doyle | D H Jenkins | A Pugh |
| M Durke | J W Jones | S J Rice |
| C R Evans | M H Jones | K M Roberts |
| C M J Evans | M Jones | R V Smith |
| V M Evans | S M Jones | A H Stevens |
| R A Fogarty | S A Joy | R C Stewart |
| R Francis-Davies | S E Keeton | L G Thomas |
| N Furlong | E J King | M S Tribe |
| L S Gibbard | E T Kirchner | G D Walker |
| K M Griffiths | A S Lewis | L V Walton |
| H J Gwilliam | M B Lewis | T M White |
| J A Hale | W G Lewis | R A Williams |
| T J Hennegan | P Lloyd | - |

| **Yn erbyn (1 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| R D Lewis | - | - |

| **Ymwrthod (7 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| M Bailey | F D O’Brien | B J Rowlands |
| P R Hood-Williams | A J O’Connor | W G Thomas |
| L R Jones | - | - |

| **Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd ( cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| P N May | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.44 pm

**Cadeirydd**